Rhif: WG52823

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Rheoleiddio darparwyr addysg uwch yng Nghymru

Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 – Rheoliadau rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi cymorth i fyfyrwyr

Medi 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Crown copyright Digital ISBN

## Trosolwg

Yn ddiweddar, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynigion polisi yn ymwneud â sefydlu cofrestr o ddarparwyr addysg drydyddol yng Nghymru o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, a'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 8 Ebrill 2025 a 4 Gorffennaf 2025. Denodd 30 o ymatebion - y rhan fwyaf gan sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn bennaf.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Dolen i'r dogfennau ymgynghori: Rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi cymorth i fyfyrwyr: [Rheoleiddio darparwyr addysg uwch a dynodi cymorth i fyfyrwyr | LLYW.CYMRU]

### Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Tîm Gweithredu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Yr Is-adran Addysg Drydyddol
Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: TER.Consultations@llyw.cymru

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd: insert hyperlink

# Cynnwys

**Cefndir** **4**
**Strwythur yr ymgynghoriad** **5**
**Gwybodaeth am y dadansoddiad** **6**
**Crynodeb o'r ymatebion** **6**

## Cefndir

Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (“y Ddeddf TER”), Deddf gan Senedd Cymru, ar 8 Medi 2022.

Mae’r Ddeddf TER yn darparu ar gyfer diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (“CCAUC”) a sefydlu corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (a elwir yn Medr). Sefydlwyd Medr fel endid cyfreithiol ar 15 Rhagfyr 2022 ac fe’i rhoddwyd ar waith ar 1 Awst 2024. Ar y dyddiad hwnnw hefyd, cafodd CCAUC ei ddiddymu.

Ar ôl gweithredu’r holl swyddogaethau y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf TER, bydd Medr yn gyfrifol am hyrwyddo, cyllido a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru. Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16, yn cynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned, prentisiaethau, a darpariaeth dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae Rhan 2 o’r Ddeddf TER yn darparu ar gyfer system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru (“y gofrestr”). Bydd y gofrestr yn darparu dull cyfreithiol ar gyfer goruchwylio darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yng Nghymru, sy’n derbyn cyllid, yn cynnwys cyllid grant gan Medr a chymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Un o amcanion polisi cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu’r Ddeddf TER yw sefydlu sail ddeddfwriaethol effeithiol, gadarn a chynaliadwy ar gyfer rheoleiddio darparwyr addysg drydyddol sy’n darparu addysg uwch. Yn achos darparwyr y caiff eu darpariaeth addysg uwch ei chyllido’n bennaf trwy gyfrwng ffioedd ddysgu, ni ellir eu rheoleiddio trwy delerau ac amodau cyllido Medr yn unig, gan fod taliadau ffioedd dysgu yn ymrwymiad contractiol rhwng darparwyr a’u myfyrwyr.

O’r herwydd, mae’n hanfodol darparu goruchwyliaeth reoleiddiol gadarn o ddarparwyr y caiff eu cyrsiau eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr, er mwyn amddiffyn buddiannau myfyrwyr, Llywodraeth Cymru a threthdalwyr.

Bydd y gofrestr yn darparu un porth rheoleiddio gyda gofynion sylfaenol cyffredin sy’n gymwys i’r ystod lawn o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys prifysgolion, colegau addysg bellach a darparwyr eraill cyrsiau addysg uwch.

Bydd y gofrestr a’r trefniadau rheoleiddio cysylltiedig yn darparu fframwaith statudol a ddefnyddir gan Medr i oruchwylio gweithgareddau darparwyr cofrestredig. Y ddau gategori cofrestru a bennir yw 'Addysg Uwch Craidd' ac 'Addysg Uwch Amgen’. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn ymwneud â'r categorïau hyn rhwng Hydref 2023 a Chwefror 2024. Mae'r crynodeb o’r ymatebion ar gael yma.

Bydd y gofrestr yn cael ei sefydlu gan Medr, mewn perthynas â darparwyr addysg uwch, ar 31 Gorffennaf 2026, a bydd y drefn reoleiddio gysylltiedig yn cael ei rhoi ar waith yn llwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2027/2028.

Yn ystod 2026/2027, bydd darparwyr cofrestredig yn cael eu rheoleiddio o dan y Ddeddf TER mewn perthynas ag ansawdd, rheolaeth ariannol, llywodraethiant, trefniadau dilysu a materion sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr megis y cod ymgysylltu â dysgwyr, cynlluniau diogelu dysgwyr, a lles staff a myfyrwyr. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd terfynau ffioedd dysgu a materion yn ymwneud â chyfle cyfartal yn parhau i gael eu rheoleiddio drwy'r drefn bresennol o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (lle mae darparwr yn sefydliad rheoleiddiedig).

Ar ôl i'r drefn reoleiddio gael ei rhoi ar waith yn llwyr, bydd terfynau ffioedd dysgu a materion yn ymwneud â chyfle cyfartal hefyd yn cael eu rheoleiddio trwy gyfrwng y gofrestr, o flwyddyn academaidd 2027 i 2028 ymlaen.

Dau brif fantais cofrestru i ddarparwyr yw dynodi eu cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru, a chymhwystra i dderbyn cymorth ariannol gan Medr mewn perthynas ag addysg uwch ac ymchwil neu arloesi.

Mae adran 32 o'r Ddeddf TER yn nodi amodau parhaus gorfodol ar gyfer terfynau ffioedd. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i Medr gynnwys amod datganiad terfyn ffioedd mewn perthynas â chyrsiau. Mae datganiadau terfynau ffioedd yn pennu'r uchafswm y gall prifysgolion a cholegau ei godi ar fyfyrwyr ar gyfer mathau penodol o gyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol. Y cynnig polisi yw parhau i gymhwyso datganiadau terfyn ffioedd i gyrsiau is-raddedig llawn amser yn unig yn ogystal â chyrsiau tystysgrif addysg i raddedigion.

Yn ddiweddar, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynigion polisi yn ymwneud â datganiadau terfynau ffioedd o dan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, a'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Diben yr ymgynghoriad oedd ystyried pa fathau o gyrsiau a phobl a ddylai fod yn destun ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig yn ogystal ag uchafswm terfynau ffioedd.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw rhwng 8 Ebrill 2025 a 4 Gorffennaf 2025. Denodd 30 o ymatebion - y rhan fwyaf gan sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn bennaf.

Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ategol ar-lein ac ymateb i bob un o'r cwestiynau drwy e-bost, holiadur post neu ffurflen ar-lein. Cawsom 8 o ymatebion e-bost; ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy'r post a chyflwynwyd 22 ffurflen ar-lein. Cafodd 5 ffurflen ar-lein eu heithrio o'r dadansoddiad gan eu bod wedi'u cyflwyno heb ddarparu unrhyw wybodaeth. Cafodd dwy ffurflen ar-lein arall eu heithrio o'r dadansoddiad gan eu bod wedi'u cyflwyno ddwywaith.

Nid oedd pob cwestiwn wedi'i ateb gan yr holl ymatebwyr.

## Strwythur yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 11 cwestiwn a oedd yn gofyn am adborth ar gynigion polisi ar gyfer ail gyfres o reoliadau i'w gwneud gan Weinidog Cymru i

gefnogi amodau parhaus gorfodol fel y maent yn gymwys i ddatganiadau terfyn ffioedd fel y'i nodir yn adran 32 o'r Ddeddf TER.

Mae'r rheoliadau a fydd yn cael eu gwneud yn yr ail gyfres yn ymwneud â’r canlynol:

- Cyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol at ddibenion ffioedd cyrsiau rheoleiddiedig sy’n ddarostyngedig i derfynau ffioedd
- Yr uchafswm na all y terfyn ffioedd a bennir mewn datganiad terfyn ffioedd fod yn fwy nag ef

Roedd y cwestiynau yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar bolisi arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Bwriad y polisi yw defnyddio’r cyfleoedd a gyflwynir yn sgil creu’r gofrestr i esgor ar ddull syml a chymesur o oruchwylio darparwyr, ynghyd â’u cyrsiau a gaiff eu dynodi ar gyfer cymorth i fyfyrwyr ac sy’n ddarostyngedig i derfynau ffioedd.

# Gwybodaeth am y dadansoddiad

At ddibenion dadansoddi, cafodd yr holl ymatebion eu cadw'n ddiogel. Pan nodwyd cytundeb, cofnodwyd manylion yr ymatebwyr ynghyd â manylion yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw’n ceisio cofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr, ond mae'n tynnu sylw at y themâu allweddol. Mae crynodeb o'r prif themâu a phenawdau o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon a bydd yn helpu i lywio'r polisi.

# Crynodeb o’r ymatebion

**Cwestiwn 1**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i gynnal y polisi presennol a dim ond pennu tystysgrif israddedig ac ôl-raddedig llawn amser mewn cyrsiau addysg fel cyrsiau cymwys at ddibenion terfynau ffioedd dysgu?**

**Nifer yr ymatebion: 23**
Cytuno: 15
Anghytuno: 5
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 3

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i gynnal y polisi presennol ar gyfer cyrsiau cymhwysol at ddibenion terfynau ffioedd dysgu. O dan y cynnig hwn, dim ond cyrsiau israddedig llawn amser a chyrsiau tystysgrif addysg i raddedigion (TAR) a fyddai'n parhau i fod yn gymhwysol at ddibenion terfynau ffioedd dysgu. Nododd yr ymatebwyr fod hyn yn sicrhau parhad y trefniadau a fydd yn lleihau unrhyw darfu, gan sicrhau bod y cyrsiau hyn yn parhau i fod yn fforddiadwy i fyfyrwyr.

Roedd un ymatebydd yn teimlo y byddai ymestyn y terfynau ffioedd i gyrsiau rhan-amser a chyrsiau ôl-raddedig eraill yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd sydd ei angen i ddylunio a marchnata'r mathau hyn o gyrsiau. Roedd ymatebydd arall o'r farn y byddai ymestyn y terfynau ffioedd i gynnwys cyrsiau rhan-amser yn rhoi baich anghymesur ar sefydliadau sy'n darparu'r cyrsiau hyn.

Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig yn credu nad oedd y trefniadau presennol yn cynnwys dulliau astudio gwahanol ac y gallai hynny greu mwy o wahaniaeth ac anfantais i fyfyrwyr o gefndiroedd annhraddodiadol.

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn croesawu parhad y trefniadau.

Roedd sylwadau eraill yr ymatebwyr yn cynnwys:

- Byddai un ymatebydd yn croesawu ystyriaeth bellach o'r terfyn ffioedd presennol ar gyfer cyrsiau rhan-amser gan ei fod yn teimlo nad yw'r terfyn hwn yn gynaliadwy bellach oherwydd y pwysau presennol.
- Byddai ymatebydd arall yn croesawu adolygiad o'r polisi gyda ffocws ar fanteision hirdymor ymestyn datganiadau terfyn ffioedd a dynodiadau awtomatig ar gyfer cyrsiau rhan-amser a chyrsiau ôl-raddedig eraill a addysgir.
- Roedd ymatebwyr yn croesawu mwy o eglurder ac ystyriaeth yn y dyfodol i ymestyn y terfyn ffioedd i ddulliau astudio amgen gan gynnwys dysgu rhan-amser, proffesiynol, modiwlaidd a chyfunol. Teimlwyd y byddai hyn yn fanteisiol i fyfyriwr ac yn sicrhau mwy o gysondeb rhwng addysg a diwydiant, sy'n gofyn yn aml am gymwysterau lefel 4 ac uwch ar gyfer recriwtio.
- Roedd un ymatebydd yn teimlo bod y trefniadau presennol yn arwain at anfantais i fyfyrwyr sydd eisiau astudio yn Lloegr naill ai trwy astudiaethau modiwlaidd o dan yr Hawl i Ddysgu Gydol Oes neu wrth gael cyllid ar gyfer graddau dysgu carlam. O ran yr olaf, roedd yn credu y byddai caniatáu hyn yn arbed arian yn yr hirdymor gan y byddai ffioedd cynhaliaeth a ffioedd dysgu yn llai ar gyfer y mathau hyn o raddau.
- Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod angen cynnal adolygiad o gyrsiau TAR er mwyn ymateb i'r argyfwng recriwtio presennol. Awgrymodd y dylid ystyried modelau cymorth i fyfyrwyr amgen yn unol â'r trefniadau gofal iechyd presennol sy'n cynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr os ydynt yn ymrwymo i weithio yng Nghymru am ddwy flynedd ar ôl astudio.

**Cwestiwn 2**

**Ydych chi'n cytuno y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi cyrsiau addysg uwch yng Nghymru yn awtomatig, gan gynnwys cyrsiau rhan-amser ac ôl-raddedig, at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Nifer yr ymatebion: 21**
Cytuno: 15
Anghytuno: 1

Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 5

Cytunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai cofrestru gyda Medr fod yn rhagofyniad ar gyfer dynodi awtomatig at ddibenion cymorth myfyrwyr Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y dull gweithredu hwn yn sicrhau cysondeb i ddarparwyr ac eglurder i ddysgwyr ynglŷn â'r hyn y gellir ei ariannu, ond cafwyd galwadau i sicrhau bod y broses yn cefnogi ystod amrywiol o ddarparwyr.

Gofynnodd un ymatebydd a fyddai'r trefniadau yn arwain at gynnydd mewn cystadleuaeth oddi mewn i'r sector addysg uwch yng Nghymru gan y rhai nad oes ganddynt statws elusennol. Hefyd, cwestiynodd yr ymatebydd a oes gan Medr yr adnoddau i ymdopi â'r cynnydd posibl.

Er nad yw'r mater o fewn cwmpas yr ymgynghoriad hwn, cyfeiriodd ymatebwyr at ddatblygu'r drefn reoleiddio gan Medr, gan nodi'r angen i'r gofynion rheoleiddio fod yn gymesur ac osgoi dyblygu a bod Medr yn sicrhau cydbwysedd rhwng baich a risg. Hefyd, gofynnodd rhai ymatebwyr i Medr ddarparu eglurder ac arweiniad i gefnogi'r broses. Yn ogystal â'r pwyntiau cyffredinol hyn, cafwyd y sylwadau canlynol:

- Dylid cynnwys darpariaeth ran-amser a phroffesiynol oddi mewn i'r fframwaith er mwyn ehangu mynediad, cefnogi dysgu gydol oes a chefnogi dysgwyr amrywiol.
- Dylid rhoi cymorth i ddarparwyr sy'n trosglwyddo i gofrestru.
- Dylid defnyddio'r un metrigau mesur ar gyfer y categorïau craidd ac amgen.
- Dylai hyblygrwydd a chymesuredd y tu allan i'r broses gofrestru awtomatig barhau er mwyn cefnogi darparwyr nad ydynt yn dymuno cofrestru.
- Dylid ystyried gweithio mewn partneriaeth wrth ystyried trefniadau is-gontract.
- Dylid cyhoeddi cofrestr sy'n nodi modelau partneriaeth ar gyfer pob darparwr yng Nghymru.

**Cwestiwn 3**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr, p'un a ydynt wedi'u cofrestru yn y categorïau Cymeradwy neu Cymeradwy (gyda chap ffioedd), gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Nifer yr ymatebion: 21**
Cytuno: 15
Anghytuno: 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 4

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda'r Swyddfa Fyfyrwyr (Cymeradwy a Chymeradwy (gyda chap ffioedd)), gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru. Roedd y rhesymau yn cynnwys:

- Mae'n bwysig i sefydliadau addysg bellach (AB) yng Nghymru sy'n gweithio gyda darparwyr addysg uwch (AU) yn Lloegr.
- Bydd yn lleihau'r baich gweinyddol a'r ymdrech reoleiddiol i ddarparwyr.
- Mae'n sicrhau cysondeb trawsffiniol.
- Mae'n darparu ar gyfer cymorth teg i fyfyrwyr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n astudio mewn sefydliadau yn Lloegr.
- Mae'n darparu eglurder i ddarparwyr a myfyrwyr.

Nododd rhai ymatebwyr y dylai trefniadau ar gyfer dynodi fod yn gilyddol ac yn gymwys hefyd i sefydliadau yn yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n cael cyllid gan y llywodraeth.

Roedd un ymatebydd o'r farn bod angen gwneud gwaith monitro parhaus mewn partneriaeth â'r Swyddfa Fyfyrwyr. Nododd ymatebydd arall ei fod yn cytuno â'r cynnig, ond ei fod yn credu bod rhai gwahaniaethau rhwng y gofynion, er enghraifft nid yw'r Swyddfa Fyfyrwyr yn gofyn am gydymffurfiaeth â safonau ansawdd Ewropeaidd tra bod Medr wedi datgan y bydd y safonau hyn yn gymwys i'w drefn reoleiddio.

Roedd yr ymatebwyr a ddarparodd ymateb naratif neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn cefnogi'r cynnig ar y cyfan. Roedd un ymatebydd yn cydnabod y cysondeb rhwng categorïau cofrestru Medr (craidd ac amgen) a'r categorïau a ddefnyddir gan y Swyddfa Fyfyrwyr (Cymeradwy a Chymeradwy (gyda chap ffioedd)). Roedd ymatebydd arall o'r farn y gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar nodau'r Gymraeg a bod angen cymryd camau i ysgogi myfyrwyr i aros yng Nghymru. Roedd trydydd ymatebydd yn teimlo bod yn rhaid i'r system fod yn ddigon cadarn i gynnal safonau lle mae darparwyr newydd (heb statws elusen) yn dod i mewn i'r sector, gan roi ystyriaeth benodol i'r effaith ar y gyllideb cymorth i fyfyrwyr. Cododd ymatebydd arall bryderon am y gallu i fonitro sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo gan y Swyddfa Fyfyrwyr a sut maent yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol.

**Cwestiwn 4**

**Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y dylai'r cyrsiau addysg uwch a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig mewn ysgolion gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Nifer yr ymatebion: 21**
Cytuno: 12
Anghytuno: 2
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno: 7

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig y dylai cyrsiau a ddarperir gan ddarparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon achrededig mewn ysgolion gael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai darparu mynediad at gymorth ariannol yn hyrwyddo gweithlu amrywiol a chynaliadwy, yn enwedig ar adeg anodd o ran recriwtio athrawon. Nodwyd hefyd y byddai hyn yn creu cydraddoldeb ar draws y llwybrau gwahanol i fod yn athro, yn ogystal â symleiddio prosesau a lleihau baich gweinyddol. Nodwyd ymhellach nad oes unrhyw gyrsiau hyfforddi athrawon mewn ysgolion yng Nghymru ar hyn o bryd, ond pe baent yn cael eu cyflwyno, byddai'n gwneud synnwyr iddynt gael eu cofrestru'n awtomatig. Cododd ymatebwyr y materion canlynol:

- Mae angen parhau i sicrhau ansawdd y cyrsiau er mwyn cynnal safonau.
- Dylai Medr fanteisio ar y cyfle i fynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn Statws Athro Cymwysedig rhwng dosbarthiadau chwech mewn ysgolion a cholegau AB ôl-orfodol er mwyn sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau proffesiynol, llwybrau hyfforddi a chymhwystra am gyllid.
- Dylid lleihau gofynion Dynodiad Cwrs Penodol ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgolion sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth os oes hanes hirdymor o ddarpariaeth.
- Dylai bod disgwyliad bod gan ddarparwyr yng Nghymru safon Gymraeg ofynnol.

Roedd yr ymatebwyr a ddarparodd ymateb naratif neu nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol. Fodd bynnag, cododd ymatebwyr bryderon am ddilysrwydd darparwyr newydd sy'n dod i mewn i'r farchnad a'r risg bosibl o dwyll, yn ogystal â'r effaith bosibl ar y gyllideb cymorth i fyfyrwyr sydd angen ei hystyried oherwydd y ffaith mai nifer fach o ddarparwyr sydd y tu allan i Gymru ar hyn o bryd. Nododd un ymatebydd fod angen trefniadau trawsffiniol ond bod angen iddynt gael eu diogelu at y dyfodol yn erbyn cynnydd posibl mewn myfyrwyr neu gyrsiau. Roedd ymatebydd arall yn credu bod modd lleihau'r baich rheoleiddio trwy sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd â rheoliadau presennol.

**Cwestiwn 5: Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau a ddarperir ar ran darparwyr addysg uwch a reoleiddir at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Nifer yr ymatebion: 17**

Cafwyd nifer o ymatebion manwl i'r cwestiwn hwn. Er bod rhywfaint o gefnogaeth i'r dull gweithredu arfaethedig, roedd sylwadau'r ymatebwyr yn amrywio.

Mae'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r sylwadau wedi'u rhestru isod.

### Eglurder

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen egluro'r trefniadau yn well gan fod rhywfaint o ddryswch yn parhau, er enghraifft gallai sefydliadau wedi'u breinio gofrestru ac yna cynnal y cwrs eu hunain.
- Cwestiynwyd union ystyr y term 'sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Medr' hefyd o ystyried yr ystod eang o gyllid y mae'n gallu ei ddarparu. Un pryder penodol yw y byddai gan y sefydliadau hyn gyrsiau dynodedig, ond na fyddai gan Medr lawer o reolaeth reoleiddiol drostynt. Awgrymwyd y dylai'r cynnig gael ei

gyfyngu i ddarparwyr sy'n derbyn grantiau rheolaidd gan Medr neu ddynodiad awtomatig wedi'i gyfyngu i ddarpariaeth trwy ddarparwyr cofrestredig yn unig.

- Hefyd, roedd ymatebwyr eisiau eglurder ynglŷn â'r amgylchiadau pan ystyrir bod darparwr trydyddol yng Nghymru 'yn darparu addysg uwch, neu y mae addysg uwch yn cael ei ddarparu ar ei ran' at ddibenion cymhwystra i gofrestru yn unol â'r rheoliadau, a sut y bydd hyn yn gweithio, er enghraifft, bod y darpariaethau/diffiniadau yn ymwneud â 'threfniadau dilysu' fel y'u diffinnir gan Ddeddf 2022 a 'threfniadau breinio' fel y'u diffinnir yn y rheoliadau.

**Statws anelusennol**

- Teimlwyd bod diffyg cysondeb yn deillio o’r ffaith fod darparwyr anelusennol yn gallu cyflwyno darpariaeth gydweithredol gan na fyddent yn gymwys i wneud cais am gofrestriad craidd ond y byddent yn cael eu dynodi'n awtomatig drwy'r cynnig hwn. Teimlwyd bod yr anghysondeb hwn yn creu amryfusedd a fyddai'n caniatáu i ddarparwyr ddarparu ar ran darparwyr cofrestredig yn Lloegr ond nid darparwyr cofrestredig yng Nghymru.
- Teimlwyd y bydd cyllid cyhoeddus Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi darpariaeth trwy sefydliadau anelusennol nad oes angen iddynt ddarparu budd i'r cyhoedd na bod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth reoleiddiol y Comisiwn Elusennau.

**Mwy o gystadleuaeth**

- Roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai diffyg gofyniad am statws elusennol ar gyfer partneriaid sy'n cofrestru gyda Medr gynyddu cystadleuaeth a chael effaith bosibl ar gyllideb myfyrwyr, a lleihau profiad myfyrwyr ar yr un pryd.
- Mae pryder penodol y bydd cynnydd yn nifer y darparwyr cofrestredig yn Lloegr sy'n darparu trwy ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru. Teimlwyd hefyd y gallai'r trefniadau gynyddu nifer y darparwyr sy'n gwneud cais i gofrestru ar gyfer y categori craidd.

**Lleihau atebolrwydd i ddarparwyr**

- Roedd un ymatebydd o'r farn ei bod yn bwysig bod y prif ddarparwr yn cadw cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd academaidd, deilliannau dysgwyr a chydymffurfiaeth reoleiddiol os oes trefniadau breinio neu is-gontractio ar waith.
- Roedd ymatebydd arall yn teimlo y gallai'r dull cofrestru deuol leihau cyfrifoldeb, atebolrwydd ac eglurder mewn perthynas â phwerau ymyrryd a allai arwain at ormod o reoleiddio. Bydd angen i Medr ddatblygu polisi ffurfiol ar gyfer ymyrraeth.

**Sicrhau ansawdd**

- Bydd darparwyr cyfrifol yn wynebu adolygiadau asesu ansawdd cylchol. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr fod angen eglurder ynglŷn â pha ddarparwr sydd â “chyfrifoldeb cyffredinol am y cwrs” oherwydd teimlwyd nad oedd hyn yn glir.
- Cydnabyddir bod yna fodelau eang ar gyfer darparu addysg uwch a cheir galwadau i sicrhau cysondeb a bod y fframwaith goruchwylio yn gadarn, yn hyblyg ac yn gallu ymdrin â threfniadau cymhleth a pharhau i gynnal safonau uchel.

**Dyblygu gofynion rheoleiddiol**

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yna bosibilrwydd o ddyblygu ar gyfer colegau AB a allai fod yn darparu modelau dysgu cymysg. Rhaid i unrhyw ddull gweithredu fod yn gymesur er mwyn adlewyrchu gwaith pwysig darparwyr o ran ehangu cyfranogiad. Gallai canllawiau clir a lleihau rheoleiddio deuol gynorthwyo'r broses hon.

**Ymgynghoriad**

- Mynegwyd pryderon bod yr ymgynghoriad hwn a'r oedi cyn gwneud penderfyniadau terfynol yn ei gwneud hi'n anodd i rai darparwyr ddatblygu partneriaethau. Mae'r cyrsiau sy'n dibynnu ar ddynodiad cwrs penodol yn aros am ganlyniad yr ymgynghoriad ac nid ydynt yn gallu ychwanegu cyrsiau at UCAS nes bod penderfyniad wedi cael ei wneud. Awgrymir bod angen gwneud trefniadau rhwng Medr a'r Swyddfa Fyfyrwyr er mwyn caniatáu i fyfyrwyr o Gymru barhau i gael mynediad at gyrsiau sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth.

**Cwestiwn 6**

**Ydych chi'n rhagweld unrhyw oblygiadau o ran adnoddau neu gostau i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch yn awtomatig ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru?**

**Nifer yr ymatebion: 20**
Ydyn. 4
Nac ydyn: 7
Ansicr: 9

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ansicr a fyddai goblygiadau o ran adnoddau neu gostau i'w sefydliadau. Nododd dau ymatebydd ei bod yn anodd ateb y cwestiwn hwn heb eglurhad o'r broses. Cyfeiriodd tri ymatebydd at arbedion cost mwy hirdymor sy'n gysylltiedig â phroses symlach, ond roeddent yn rhagweld y byddai angen cynyddu amser staff ac uwch reolwyr ar gyfer y broses gofrestru gychwynnol. Roedd un ymatebydd yn credu y gallai'r costau ar gyfer darparwyr bach fod yn anghymesur, ac y gellid lliniaru hyn trwy gyflwyno graddfa symudol a mabwysiadu dull cymesur seiliedig ar risg ar gyfer cofrestru. Roedd ymatebydd arall yn teimlo bod modd lliniaru rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â chofrestru parhaus trwy drefnu bod Medr yn ariannu adolygiadau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch. Nododd ymatebydd arall fod angen ystyried y baich ariannol cynyddol sydd wedi'i greu gan y gofyniad i ddarparu cyflwyniadau i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Roedd ymatebydd arall yn teimlo na fyddai unrhyw gostau gwirioneddol i brifysgolion, ond y gallai rhagor o ddarpariaeth sy'n defnyddio'r gyllideb cymorth i fyfyrwyr gael effaith anuniongyrchol. Gallai hyn effeithio ar allu Medr i reoleiddio darparwyr hefyd.

Roedd yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydyn' i'r cwestiwn hwn wedi gwneud hynny naill ai oherwydd eu bod yn teimlo na fyddai'r broses yn arwain at lawer o newid ar gyfer eu sefydliad neu oherwydd na fyddai’r drefn gofrestru yn berthnasol iddynt. Nododd

un ymatebydd fod y costau eisoes wedi'u hamsugno gan ei sefydliad. Nododd ymatebydd arall na fydd yn ysgwyddo unrhyw gost ariannol uniongyrchol, ond byddai angen ystyried cynnydd posibl yn y galw am ei wasanaethau gan ddarparwyr.

Roedd un ymatebydd a atebodd 'ydyn' i'r cwestiwn hwn yn rhagweld y byddai angen mwy o amser a gwariant ar staff i gyflwyno'r system newydd, ond cytunodd ei fod yn cyd-fynd â nod Medr i symleiddio'r broses reoleiddio. Roedd ymatebydd arall yn credu y byddai effaith sylweddol ar golegau AB a allai fod yn cynnal modelau gwahanol o addysg uwch, fel cyflenwi uniongyrchol a threfniadau breinio neu is-gontractio. Roedd yn credu y byddai angen gwaith monitro ychwanegol sylweddol ar gyfer y system newydd, gan gynnwys creu canllawiau i staff. Roedd yn teimlo hefyd y byddai llawer o ddyblygu oherwydd y posibilrwydd bod gofyniad i golegau AB gydymffurfio â chyfundrefnau sicrhau ansawdd lluosog Medr a rheoleiddwyr eraill.

Er bod ymatebydd arall wedi rhoi ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn, roedd y naratif yn ymwneud â chost cyrsiau carlam yn hytrach na chostau i'r sefydliad. Cyflwynwyd sylwadau tebyg ar gyfer cwestiwn 1 ac maent wedi'u crynhoi yno.

**Cwestiwn 7**

**Ydych chi'n rhagweld unrhyw arbedion cost i'ch sefydliad yn deillio o'r dull arfaethedig o ddynodi cyrsiau addysg uwch ar gyfer cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru? (Gall hyn gynnwys arbedion ar unwaith neu ostyngiadau cost hirdymor.)**

**Nifer yr ymatebion: 24**
Ydyn. 3
Nac ydyn: 12
Ansicr: 5

Nid oedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn rhagweld unrhyw arbedion cost yn gysylltiedig â'r dull hwn. Y prif resymau a roddwyd oedd naill ai bod y sefydliadau eisoes yn gorfod cofrestru neu na fyddai'r broses yn gymwys iddynt. Fodd bynnag, nododd un ymatebydd y gellid cael arbedion cost mwy hirdymor pe bai system gofrestru awtomatig yn disodli ceisiadau pwrpasol; pe bai gostyngiad mewn gofynion rheoleiddio sy'n gorgyffwrdd gan gyrff ledled y DU; a bod mynediad cliriach at gymorth i fyfyrwyr ar draws ystod o gyrsiau er mwyn denu dysgwyr. Eglurodd yr ymatebydd na fyddai modd gwneud arbedion heb roi'r broses ar waith yn effeithiol, gan gynnwys canllawiau clir, dulliau rheoleiddio cymesur, a rhoi cymorth i sefydliadau sy'n darparu cyrsiau dull cymysg.

Roedd ymatebydd a oedd yn ansicr am arbedion cost posibl yn cydnabod y gallai arbedion cost mwy hirdymor ddeillio o ostyngiad mewn tasgau gweinyddol sy'n gysylltiedig â dynodiad cwrs penodol a'r broses reoleiddio symlach.

Roedd ymatebydd a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn rhagweld arbedion yn y tymor canolig a'r hirdymor gan y byddai cofrestru awtomatig yn hytrach na chofrestru cwrs penodol yn golygu bod modd dargyfeirio adnoddau i ganolbwyntio ar feysydd â mwy o risg. Roedd ymatebwyr eraill yn cydnabod y byddai'r system yn lleihau dyblygu goruchwylio a baich rheoleiddio.

**Cwestiwn 8**

**Ydych chi’n credu y gallai unrhyw un o'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar unrhyw bersonau sydd â nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cynnwys yn y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Os felly, sut y gellid cynyddu’r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru’r effeithiau negyddol?**

**Nifer yr ymatebion: 14**

Roedd ymateb cymysg i'r cwestiwn hwn gyda rhai ymatebwyr yn teimlo bod effeithiau cadarnhaol yn bosibl, tra bod eraill yn credu na fyddai unrhyw effaith, neu effaith negyddol bosibl.

Y pryder mwyaf cyffredin oedd nad yw cyrsiau rhan-amser yn gymwys ar gyfer dynodiad awtomatig, a theimlwyd y gallai hyn fod yn anfantais i fyfyrwyr â nodweddion gwarchodedig gan fod cyfran uchel o fyfyrwyr rhan-amser yn dod o grwpiau difreintiedig.

Teimlwyd y byddai ymestyn dynodiad awtomatig i ystod ehangach o gyrsiau gan gynnwys dysgu rhan-amser a dysgu hyblyg yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal, cafodd y sylwadau canlynol eu gwneud:

- Nid yw'r effaith ar grwpiau penodol o fyfyrwyr yn glir ar hyn o bryd.
- Gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol trwy ddefnyddio deunyddiau pwrpasol ar gyfer myfyrwyr â nodweddion gwarchodedig sy'n amlinellu eu hawl, natur a maint posibl y cymorth, a'r trefniadau ar gyfer gwneud cais am gymorth i fyfyrwyr a derbyn cymorth o'r fath.
- Byddai dadansoddiad o nodweddion gwarchodedig myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyrsiau dynodedig yn ddefnyddiol.
- Os nad yw monitro data cydraddoldeb yn rhan o'r broses gofrestru, mae'n bosibl na fydd rhai darparwyr yn bodloni'r un safonau ag y disgwylir gan y rhai sy'n gorfod creu cynlluniau ffioedd a mynediad neu gynlluniau mynediad a chyfranogiad. Os yw darparwyr yng Nghymru yn dewis peidio â chofrestru, gallai cymorth i ddysgwyr amrywio, yn enwedig ar gyfer trefniadau breinio ac is-gontractio. Dylai unrhyw asesiad o'r effaith ystyried hyn.
- Gallai ymestyn cynlluniau ehangu cyfranogiad ac allgymorth helpu i wneud unigolion yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt.
- Bydd yn bwysig ymgynghori â'r sector wrth lunio cynlluniau newydd, gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb wrth i'r cynigion gael eu gweithredu a'u llywio gan ddysgwyr a darparwyr.
- Cymorth ac arweiniad pwrpasol ar gyfer darparwyr, yn enwedig y rhai sy'n darparu modelau dysgu cymysg.
- Sicrhau bod y system yn gweithio i bob dysgwr, yn enwedig y rhai sy'n dod o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau dan anfantais.

**Cwestiwn 9**

**Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

**Nifer yr ymatebion: 16**

Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn teimlo bod effeithiau cadarnhaol yn bosibl o ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ond nid oeddent yn gwybod beth fyddai natur y cyfleoedd hyn nes bod rhagor o wybodaeth ar gael am y system gofrestru.

Roedd y materion a nodwyd yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys:

- Trwy ehangu cwmpas cofrestru awtomatig i gynnwys mathau eraill o ddarpariaeth e.e. rhan-amser, gellid ysgogi darparwyr i gynnig darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog os oes galw amdani.
- Dylai Medr sicrhau bod y meini prawf cofrestru yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer yr iaith Gymraeg. Byddai hyn yn hyrwyddo cysondeb ar gyfer darparwyr hefyd.
- Dylid cyflwyno cymhellion ariannol i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a chydweithrediad rhanbarthol. Byddai cymorth ariannol ac addysgol i fyfyrwyr allu astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn helpu i fynd i'r afael â rhwystrau fel niferoedd cofrestru isel gan sicrhau bod cyrsiau'n parhau i fod yn hyfyw. Gellid gwella hyn trwy ddarparu deunydd sy'n amlinellu manteision astudio yng Nghymru a dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Heb gymhellion, mae perygl y bydd y rhan fwyaf o gyrsiau yn rhai cyfrwng Saesneg.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad i ddeall sut mae cymhellion ariannol yn gallu cadw myfyrwyr o Gymru yng Nghymru. Gallai hyn gael effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.
- Dylid annog darparwyr i ddarparu mwy o gyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd yn hollbwysig darparu fersiynau Cymraeg o ddogfennau allweddol ar gyfer myfyrwyr a darparwyr er mwyn dangos cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith.
- Mae'n bosibl y bydd symleiddio'r broses ddynodi yn dileu rhwystrau i ddarpariaeth Gymraeg, cyn belled nad yw'r ddarpariaeth yn cael ei dadflaenoriaethu. Gallai hyn hwyluso dull mwy cydlynol o hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg.
- Trwy gyhoeddi rhestr o ddarparwyr a phartneriaid sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â rhestr o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, bydd modd gwella dealltwriaeth o effaith y system ar y Gymraeg.
- Gallai'r risg o ddarparwyr newydd a'r galw cynyddol ar y gyllideb cymorth i fyfyrwyr effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg.

- Mae'n bosibl na fydd adnoddau a phlatfformau dysgu digidol ar gael yn y Gymraeg neu na fyddant o'r un ansawdd â'r adnoddau a'r platfformau Saesneg cyfatebol. Gallai hyn arwain at wahaniaeth rhwng y ddarpariaeth.

**Cwestiwn 10**

**Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn er mwyn:**

- **sicrhau eu bod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg, neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg?**

**Nifer yr ymatebion: 12**

Roedd yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar y sylwadau a wnaed mewn ymateb i gwestiwn 9. Roedd awgrymiadau penodol yn cynnwys:

- Dylid cynnwys gofyniad o ran y Gymraeg yn y broses gofrestru a dynodi er mwyn annog darparwyr i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Dylid darparu cymhellion ariannol gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn meysydd pwnc sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Dylai cymhwystra gynnwys sut y bydd sefydliadau yn ymgorffori'r Gymraeg mewn addysgu, cymorth i ddysgwyr a chyfathrebu sefydliadol.
- Dylid sicrhau bod pob cwrs dynodedig (waeth ble neu sut y mae'n cael ei gyflwyno) yn bodloni safonau’r Gymraeg gofynnol, gan gynnwys darparu'r holl wybodaeth i fyfyrwyr yn ddwyieithog.
- Dylid darparu canllawiau pwrpasol i ddarparwyr llai ar sut i fodloni safonau'r Gymraeg.
- Dylid parhau i fonitro ac addasu cynigion ar sail eu heffaith ar ddarpariaeth Gymraeg, drwy adrodd ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn rheolaidd.
- Mae angen cynnal asesiad risg ar gyfer y Gymraeg mewn perthynas â darparwyr amgen yn gweithredu ar sail is-gontract gyda sefydliadau yng Nghymru. Dylid ategu hyn ag ymgysylltiad ychwanegol gan Medr â'r darparwyr hyn.
- Dylid cynnal asesiad risg yn ymwneud ag effaith cynyddu darpariaeth Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon mewn Ysgolion (sydd ar gael yn Lloegr yn unig) ar y Gymraeg.
- Mae angen sicrhau bod asesiadau cynhwysfawr o’r effaith ar y Gymraeg yn orfodol ar gyfer yr holl bolisïau, rheoliadau a modelau cyllido newydd sy'n cael eu cynnal mewn ffordd ragweithiol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau.
- Byddai'r cynigion yn cael eu cryfhau drwy gynnwys materion y Gymraeg ynddynt.

**Cwestiwn 11**

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:**

**Nifer yr ymatebion: 8**

Roedd ystod o awgrymiadau, sylwadau a gwybodaeth ychwanegol a oedd y tu allan i brif gwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r materion ychwanegol wedi'u cofnodi ac mae'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg ohonynt wedi'u rhestru isod:

- **Amserlenni ar gyfer cyflwyno –** codwyd pryderon am yr amserlen gyfyngedig ar gyfer cyflwyno'r gofrestr ac effaith bosibl hyn ar ddatganiadau terfyn ffioedd 2026/27 a 27/28. Ar hyn o bryd, mae datganiadau ffioedd a mynediad prifysgolion ar waith tan ddiwedd blwyddyn academaidd 26/27, ac ar hyn o bryd byddent yn disgwyl bod wrthi'n datblygu datganiadau ar gyfer 27/28. Byddai ymatebwyr yn gwerthfawrogi mwy o fanylion am y dyddiadau targed ar gyfer pob cam o'r broses. Yn ogystal, codwyd pryderon bod diffyg amser ar gyfer cyflwyno'r system yn golygu nad oes digon o amser i ddatblygu polisi cysylltiedig.
- **Colegau addysg bellach -** byddai'r cynigion yn elwa ar gydnabod colegau AB a'u gwaith yn darparu addysg uwch hygyrch, yn y gymuned ac mewn colegau sy'n canolbwyntio ar y diwydiant er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais o ran dynodiad, cyllid neu oruchwyliaeth. Dylai Medr a Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau ar sut y bydd y modelau gwahanol mewn colegau AB (darpariaeth wedi'i breinio, wedi'i hariannu'n uniongyrchol, wedi'i chofrestru, ac wedi'i dynodi'n benodol) yn cael eu rheoleiddio a'u hariannu. Dylid ystyried hyfforddiant, adnoddau a chyllid trosiannol i gynorthwyo darparwyr yn ystod y newidiadau.
- **Cydweithio a chydweithredu –** oherwydd nifer y myfyriwr sydd â'u domisil yng Nghymru sy'n astudio y tu allan i Gymru, dylid parhau i gydweithio â sefydliadau yn y DU er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais oherwydd gwahaniaethau rheoleiddiol.
- **Amddiffyn myfyrwyr a sicrhau ansawdd –** croesewir yr ymrwymiad i amddiffyn myfyrwyr a sicrhau ansawdd, yn enwedig y cysylltiad â Chynllun Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (Addysg Uwch). Credir bod hyn yn darparu dull gwneud iawn annibynnol ar gyfer myfyrwyr. Nododd un ymatebydd y dylai darparwyr ddeall yr angen i hysbysu myfyrwyr yn llawn am y ffioedd y disgwylir iddynt eu talu a'r cymorth sydd ar gael iddynt. Hefyd, nodwyd ei bod yn bwysig bod lleisiau dysgwyr yn cael eu cynnwys wrth gyflwyno'r cynigion.
- **Dynodiad Cwrs Penodol –** dylid darparu mwy o eglurder yn y maes hwn i ddarparwyr sy'n dewis peidio â chofrestru gyda Medr neu'r Swyddfa Fyfyrwyr.
- **Argyfwng addysg uwch -** mae partneriaid dilysu yn cynyddu eu ffioedd yn sylweddol, gan arwain at lai o adnoddau i addysgu myfyrwyr, sy'n cael effaith ar eu profiad. Mae angen ystyried y mater hwn wrth bwyso a mesur isafswm y benthyciad ar gyfer ffioedd.
- **Rhagnodedig a heb fod yn rhagnodedig -** nododd un ymatebydd a oedd wedi cael sgyrsiau gyda rhanddeiliaid fod dryswch mawr ar hyn o bryd am y

trefniadau rheoleiddio, cyllido a chymorth i fyfyrwyr mewn perthynas â'r gwahaniaethau rhwng cymwysterau addysg uwch 'rhagnodedig' a 'heb fod yn rhagnodedig'. Roedd yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol cael disgrifiad a thrafodaeth fwy eglur o'r categorïau gwahanol o gymwysterau a'u cyllid yn y sector trydyddol.